**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Elin Jones AC
Llywydd, Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

12 Gorffennaf 2019

Annwyl Lywydd

**Amserlen Cyllideb 2020-21**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Gorffennaf 2019, a oedd yn gofyn barn y Pwyllgor Cyllid am amserlen arfaethedig Cyllideb 2020-21.

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gwerthfawrogi bod yr ansicrwydd ynghylch bwriad Llywodraeth y DU i gynnal adolygiad o wariant, ac amseriad ei chyllideb, yn effeithio ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer y gyllideb. Fodd bynnag, mae'n siomedig y bydd yr amserlen arfaethedig yn cyfyngu'r amser sydd ar gael ar gyfer gwaith craffu. Os yw'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn gallu cyflwyno'r gyllideb yn gynharach yn yr hydref, a fyddai'n fwy ffafriol o ran nifer yr wythnosau gwaith ar gyfer gwaith craffu, byddai'r Pwyllgor Cyllid yn cefnogi camau gan y Pwyllgor Busnes i adolygu'r amserlen yn unol â hynny.

O ran proses y gyllideb ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor Cyllid yn pryderu nad oes cyfle i'r Cynulliad ddylanwadu ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru cyn cyflwyno'r gyllideb ddrafft. Yn ystod ein sesiwn graffu ar y gyllideb ddrafft ar 27 Mehefin, gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog ystyried newid y datganiad llafar ar y rhagolwg ar wariant cyhoeddus yng Nghymru, a drefnwyd ar gyfer 16 Gorffennaf, i ddadl neu ddadl ar ddatganiad, yn debyg i'r broses ar gyfer y gyllideb ddrafft.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod y Gweinidog yn pryderu y gallai dilyn y broses hon yn amlach wanhau pwysigrwydd y ffordd benodol hon o gyhoeddi'r gyllideb ddrafft. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog wedi nodi y bydd yn

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

ystyried cyflwyno dadl yn amser y Llywodraeth yn yr hydref os oes digon o ddiddordeb mewn gwneud hynny.

Er bod hyn yn rhywbeth y mae'r Pwyllgor yn credu y dylid ei hwyluso ar sail barhaol, ymddengys bod dadl ar flaenoriaethau gwario yn bwysicach fyth o ystyried goblygiadau y posibilrwydd o gynnal adolygiad cynhwysfawr o wariant a'r amserlen arfaethedig ar gyfer cyllideb Llywodraeth Cymru.

Os nad yw'r Gweinidog yn barod i gyflwyno dadl yn amser y Llywodraeth, hoffai'r Pwyllgor Cyllid geisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Busnes i gynnal dadl awr o hyd yn ystod amser y Cynulliad, ddydd Mercher 18 Medi.

Anfonaf gopi o'r llythyr hwn at y Gweinidog.

Yn gywir



Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid